Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Crynodeb Gwirio Ansawdd

# Meddygfa Brynderwen

# Dyddiad y gweithgarwch: 17 Ionawr 2022

Dyddiad cyhoeddi: 21 Chwefror 2022





Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Rhif ffôn: 0300 062 8163

E-bost: agic@llyw.cymru

Gwefan: www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-80391-730-6

© Hawlfraint y Goron 2022

# Crynodeb Gwirio Ansawdd

## Ein dull gweithredu

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wiriad ansawdd o bell o Feddygfa Brynderwen fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Mae Meddygfa Brynderwen yn ffurfio rhan o'r gwasanaethau gan feddygon teulu a ddarperir yn yr ardaloedd a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull newydd wedi'i deilwra ar gyfer gwaith sicrwydd ac maent yn un o nifer o ffyrdd y mae'n archwilio sut mae gwasanaethau gofal iechyd yn bodloni Safonau Iechyd a Gofal 2015 (a rheoliadau perthnasol eraill). Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cynorthwyo dysgu, datblygu a gwella ar lefelau gweithredol a strategol.

Ciplun yw gwiriadau ansawdd o'r safonau gofal o fewn gwasanaethau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle'n gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol: atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn arbennig ynghylch staffio), a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn archwilio trefniadau sydd ar waith i ddiogelu staff a chleifion rhag COVID-19, gan ein galluogi i ddarparu cyngor gwella cyflym a chefnogol ar weithrediad diogel gwasanaethau yn ystod y pandemig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein trefniadau sicrwydd a'n dull arolygu yma.

Gwnaethom siarad â rheolwr y practis a meddyg teulu ar 17 Ionawr 2022, a roddodd wybodaeth a thystiolaeth i ni am eu gwasanaeth. Gwnaethom ddefnyddio'r llinellau ymholi allweddol canlynol:

- Pa newidiadau ydych chi wedi'u gweithredu yng ngoleuni COVID-19 i sicrhau y cynhelir safonau atal a rheoli heintiau?
- Sut ydych yn sicrhau y gall cleifion (gan gynnwys grwpiau sy'n agored i niwed / mewn perygl) gyrchu gwasanaethau mewn modd priodol a diogel? Yn eich ateb, cyfeiriwch at amgylchedd y practis a'r prosesau sy'n galluogi cleifion i drefnu apwyntiadau.
- Sut ydych yn diwallu anghenion cleifion Cymraeg wrth ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd trwy gyfrwng y Gymraeg?
- Sut mae'r practis a'r gwasanaethau y mae'n eu darparu wedi addasu yn ystod y cyfnod hwn o COVID-19? Beth yw map trywydd y practis ar gyfer dychwelyd i'r lefelau o wasanaethau a ddarperir cyn COVID-19?
- Sut ydych yn sicrhau bod cydraddoldeb a dull sy'n seiliedig ar hawliau'n cael eu hymgorffori ar draws y gwasanaeth?
- Pa drefniadau sydd mewn grym i sicrhau bod trafodaeth a phenderfyniadau 'Na cheisier dadebru cardio-anadlol' yn briodol ac yn sensitif?

- Pa mor hawdd ydyw cael gafael ar weithwyr gofal sylfaenol proffesiynol ehangach a gwasanaethau eraill megis timau iechyd meddwl, gofal eilaidd a gwasanaethau y tu allan i oriau gwaith ar hyn o bryd?

## Yr Amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i'r heriau a gyflwynwyd gan COVID-19 a sut mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal i'w gadw mor ddiogel â phosib i gleifion, staff ac ymwelwyr.

Ymhlith y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym roedd:

- Asesiad risg iechyd a diogelwch staff.
- Gweithdrefnau ar gyfer cyfarpar diogelu personol.
- Gwaith COVID-19 ar safleoedd meddygon teulu – ffurflen gais.

Gwnaethom hefyd holi cynrychiolwyr y gwasanaeth am y newidiadau y maent wedi'u gwneud i sicrhau bod cleifion yn parhau i dderbyn gofal a thriniaeth yn unol â'u hanghenion.

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Gwelsom dystiolaeth fod asesiad risg iechyd a diogelwch cyffredinol wedi cael ei gwblhau, yn ogystal â dogfen fanwl am weithdrefnau ar gyfer cyfarpar diogelu personol a ffurflenni cais ar gyfer y gwaith a gwblhawyd yn y lleoliad i sicrhau cydymffurfedd â chanllawiau COVID-19.

Clywsom fod amgylchedd y practis wedi cael ei asesu ar ddechrau pandemig COVID-19, ac y gwnaed y newidiadau canlynol:

- Newidiwyd y carpedi â llawr finyl yn y practis cyfan a gosodwyd cadeiriau finyl yn yr ardal aros.
- Gosodwyd sgriniau persbecs yn y dderbynfa a rhwng unrhyw unigolion sy'n gweithio yn yr un ystafell.
- Codwyd arwyddion cadw pellter cymdeithasol.
- Gosodwyd drysau awtomatig i leihau'r mannau cyffwrdd.
- Cyflwynwyd system un ffordd.
- Symudwyd peiriannau hunanwasanaeth ar gyfer mewngofnodi i'r cyntedd.
- Gosodwyd intercoms yn y cyntedd gyda chysylltiad i'r dderbynfa.
- Gosodwyd cyfarpar yn y cyntedd er mwyn i gleifion allu postio ceisiadau am bresgripsiynau, gadael samplau, postio ffurflenni a chasglu ffurflenni gwag i'w cwblhau, hynny yw ffurflenni cofrestru, ceisiadau am bresgripsiynau, i gyd yn ddiogel.
- Gosodwyd peiriannau hylif diheintio dwylo drwy'r adeilad cyfan.
- Newidiwyd pwrpas yr ystafelloedd gweinyddol er mwyn galluogi staff i gadw'r pellter

cymdeithasol priodol.

Dywedwyd wrthym fod y practis wedi aros ar agor trwy gydol pandemig COVID-19. Trefnodd y practis fod cleifion yn derbyn ymgynghoriadau dros y ffôn. Cafodd yr holl alwadau eu trefnu gan staff y dderbynfa a'u brysbennu gan feddyg teulu neu nyrs. Roedd unrhyw gleifion yr oedd angen iddynt weld clinigydd wyneb yn wyneb yn dod i'r practis drwy apwyntiad a drefnwyd ymlaen llaw. Yn sgil y cynnydd yn y defnydd o linell ffôn y practis yn ystod y pandemig, cyflwynwyd mwy o linellau ffôn a gosodwyd rhestr aros rifiadol i hysbysu'r galwyr o'u lle yn y ciw. Cafodd y wefan ei haddasu hefyd er mwyn galluogi cleifion i anfon ffotograffau, gwneud cais am bresgripsiwn ac apwyntiadau ar gyfer adolygiadau rheolaidd yn ogystal â gofyn am barhad o nodyn ffitrwydd gan feddyg teulu.

Os oedd claf a oedd wedi derbyn canlyniad positif o COVID-19 neu'n arddangos symptomau o COVID-19 angen gweld clinigwr, dywedwyd wrthym y byddai'r staff naill ai'n trefnu cwrdd â nhw yn y maes parcio neu yn ystafell y clinigwr sydd ger yr allanfa dân er mwyn i'r claf allu mynd i mewn a gadael wrth osgoi cyswllt ag unrhyw aelod o staff neu gleifion eraill. Mae polisi drws dan glo gan y practis ar hyn o bryd er mwyn lleihau nifer y cleifion sy'n ymweld â'r practis.

Dywedwyd wrthym fod yr holl staff wedi cael asesiad risg i asesu’r risgiau personol sydd ynghlwm wrth barhau i gyflawni eu rôl yn ystod y pandemig ac i dynnu sylw at unrhyw newidiadau sydd angen eu gwneud i'w harferion gwaith.

Dywedwyd wrthym fod y practis yn darparu gwasanaethau i gleifion sy'n byw mewn cartrefi gofal. Mae’r staff clinigol yn dilyn y gweithdrefnau yn y cartref gofal wrth fynd i mewn i'r lleoliad.

Cawsom wybod hefyd fod gweithdrefnau ar waith gan y practis ar gyfer unrhyw glinigwyr sy'n cynnal ymweliadau cartref. Mae'r clinigwyr yn gwisgo cyfarpar diogelu personol llawn bob amser ac yn defnyddio eu hoffer eu hunain y gwaredir arno gyda’r gwastraff clinigol yn y feddygfa.

Dywedodd staff wrthym eu bod wrthi'n gwneud y system ffôn yn un ddwyieithog a bod ganddynt aelod o staff sy'n rhugl yn y Gymraeg hefyd. Mae gwybodaeth ddwyieithog gan y bwrdd iechyd wedi'i harddangos ar draws y lleoliad a chawsom wybod bod y practis yn bwriadu gwneud mwy o'i negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol ac ar sgriniau teledu'n ddwyieithog. Mae'r practis hefyd yn defnyddio'r llinell iaith wrth ddesg y dderbynfa ac yn ystafelloedd y clinigwyr.

**Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:**

Dywedodd rheolwr y practis wrthym nad oes gan y practis asesiadau risg ysgrifenedig ar waith ar gyfer atal a rheoli heintiau na'r amgylchedd er bod y practis wedi cwblhau'r holl waith angenrheidiol ar y meysydd risg a nodwyd. Gwnaethom hysbysu rheolwr y practis bod yn rhaid rhoi'r asesiadau risg hyn ar waith.

## Atal a rheoli'r haint

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i'r heriau a gyflwynwyd gan COVID-19, a pha mor dda y mae'n rheoli'r risg o heintiau, er mwyn helpu i gadw cleifion, ymwelwyr a staff yn ddiogel.

Ymhlith y prif ddogfennau a welwyd gennym roedd:

- Canllawiau ar gyfer safonau hylendid
- Copi o amserlenni glanhau
- Polisi atal a rheoli heintiau
- Data am hyfforddiant staff ynghylch atal a rheoli heintiau

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Gwelsom fod gan y practis bolisi atal a rheoli heintiau ar waith. Mae'r polisi wedi'i ddiwygio i adlewyrchu'r drefn ar gyfer rheoli COVID-19. Cadarnhaodd rheolwr y practis fod yr amserlenni glanhau wedi cynyddu a bod y defnydd o gyfarpar diogelu personol wedi cael ei optimeiddio gyda stoc ddigonol yn cael ei chyrchu a'i monitro'n rheolaidd. Gwelsom hefyd dystiolaeth bod staff wedi cwblhau'r hyfforddiant atal a rheoli heintiau perthnasol.

Dywedwyd wrthym hefyd fod yr holl staff yn y practis wedi cael hyfforddiant ar y ffordd gywir o ddefnyddio cyfarpar diogelu personol, gan gynnwys gwisgo a diosg[1] cyfarpar a chael gwared ar gyfarpar ar ôl ei ddefnyddio'n ddiogel.

**Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:**

Gwelsom dystiolaeth o gontractau gwaith ac amserlenni glanhau'r glanhawyr ond nid oedd polisi glanhau mewnol gan y lleoliad. Rhaid i reolwr y practis sicrhau bod polisi glanhau ysgrifenedig ar waith cyn gynted â phosibl.

## Llywodraethu / Staffio

Fel rhan o'r safon hon, gwnaeth AGIC holi cynrychiolwyr y gwasanaeth ynghylch sut, yng ngoleuni effaith COVID-19, maent wedi addasu eu gwasanaeth. Gwnaethom archwilio sut mae'r gwasanaeth yn gweithio gyda thimau (neu wasanaethau) gofal sylfaenol ac yn rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â COVID-19.

Ymhlith y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym roedd:

- Cynllun parhad busnes

[1] Gwisgo – gwisgo cyfarpar diogelu personol; Diosg – tynnu cyfarpar diogelu personol

- Cylchlythyrau misol staff

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Roedd yn amlwg drwy gydol y gwiriad ansawdd bod y practis wedi cynllunio'n dda ac wedi gwneud gwelliannu i'w cynorthwyo wrth fynd i'r afael â'r heriau a gyflwynwyd gan bandemig COVID-19. Gwelsom fod cynllun parhad busnes gan y practis a oedd wedi cael ei adolygu. Roedd y cynllun wedi helpu i sicrhau dilyniant yn narpariaeth y gwasanaeth a gofal diogel i gleifion yn ystod y pandemig.

Dywedwyd wrthym fod amseroedd aros ar gyfer gwasanaethau gofal sylfaenol a gofal eilaidd wedi cynyddu yn ystod y pandemig a oedd wedi rhoi mwy o alw ar y practis. Dywedodd staff wrthym nad oes ganddynt y capasiti i ddelio â’r galw am ofal oherwydd yr oedi yn sgil COVID-19 sy’n rhoi pwysau sylweddol ar y practis meddyg teulu. Dywedodd staff wrthym hefyd eu bod yn cael anawsterau o ran cael apwyntiadau i'r gwasanaethau iechyd meddwl ar gyfer cleifion y practis. Gwnaethant ddweud wrthym fod y gwasanaethau hyn yn gwrthod atgyfeiriadau'n aml, neu'n achosi oedi trwy ysgrifennu'n ôl at y meddyg teulu i gael rhagor o wybodaeth.

Cawsom wybod bod cyfarfodydd staff wedi'u hoedi yn ystod y pandemig ond bod y practis wedi symud i system o ddefnyddio cylchlythyrau i gyfathrebu â'r tîm cyfan. Gwelsom dystiolaeth fod y cylchlythyr yn cael ei anfon at y staff bob mis.

**Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.**

# Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi meysydd i'w gwella yn ystod ein gwiriad ansawdd a lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r rhain, darperir cynllun gwella yn rhoi manylion ar ddiwedd y crynodeb gwirio ansawdd hwn.

Lle mae angen cynllun gwella, dylai wneud y canlynol:

- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y meysydd i'w gwella a nodwyd yn cael sylw digonol
- Sicrhau bod tystiolaeth ofynnol yn erbyn camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw'r meysydd i'w gwella yn systemig ar draws meysydd eraill yn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Os na nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ystod y gwiriad ansawdd hwn, ni fydd angen cynllun gwella, a dim ond yr adroddiad cryno ar y gwiriad ansawdd fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# Cynllun Gwella

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | Meddygfa Brynderwen |
| Dyddiad y gweithgarwch: | 17/01/2022 |

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yn ystod y gwiriad ansawdd y mae’n ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella yn eu cylch sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Sylwer, disgwylir i’r holl gamau gweithredu gael eu cwblhau o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd a dylid cyflwyno fersiwn derfynol o'r cynllun gwella drwy Objective Connect ar ôl iddo gael ei gwblhau.

| Cyfeirnod | Yr hyn y mae angen ei wella | Safon / Rheoliad | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Nid oes gan y practis asesiadau risg ysgrifenedig ar waith ar gyfer atal a rheoli heintiau na'r amgylchedd er bod y practis wedi cwblhau'r holl waith angenrheidiol ar y meysydd risg a nodwyd. Rydym yn gofyn i’r practis lunio’r rhain cyn gynted â phosibl. | Safon 2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch (Safonau Iechyd a Gofal) | Creu a chwblhau asesiad risg o ran atal a rheoli heintiau<br><br>Creu a chwblhau asesiad risg ar gyfer yr amgylchedd | Rheolwr y practis | Chwefror 2022 |
| 2 | Rhaid i reolwr y practis sicrhau bod polisi glanhau ysgrifenedig ar waith cyn gynted â phosibl. | Safon 2.4 Atal a rheoli heintiau a dihalogi (Safonau Iechyd a Gofal) | Creu a chwblhau polisi glanhau ysgrifenedig | Rheolwr y practis | Chwefror 2022 |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Enw:  Antonia Higgins

Dyddiad: 03/02/2022